

# Ni yw Estyn.

Rydyn ni'n edrych ar ba mor dda mae ysgolion a lleoedd eraill ar gyfer dysgu yn perfformio ar draws Cymru. Ein gwaith ni yw gwneud yn siŵr fod plant a phobl ifanc yn dysgu mewn ffordd diogel, hapus a defnyddiol. Rydyn ni'n ymweld ag ysgolion, meithrinfeydd, colegau a lleoedd hyfforddiant i weld beth sy'n mynd yn dda a beth allai fod yn well.

Pan rydyn ni'n ymweld, rydyn ni'n siarad ag athrawon a dysgwyr, yn dod i'r dosbarthiadau ac yn edrych ar waith. Ar ôl ein hymweliad, rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad sy'n dweud beth mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a sut gallai wella. Mae hyn yn helpu ysgolion i wneud dysgu yn well i bawb.

Mae ein henw, Estyn, yn golygu "estyn allan". Dyna beth rydyn ni'n ceisio'i wneud – estyn allan i wella addysg ym mhob rhan o Gymru.

Rydyn ni'n annibynnol, sy'n golygu nad ydyn ni'n gweithio i unrhyw ysgol na chyngor. Mae hyn yn ein helpu i roi cyngor teg a gonest. Rydyn ni hefyd yn rhannu'r hyn rydyn ni'n ei ddarganfod gyda Llywodraeth Cymru i'w helpu i wneud penderfyniadau da ar gyfer addysg.

Ein prif nod yw sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn cael y cyfleoedd gorau i ddysgu, tyfu a llwyddo.

Mae'ch pennaeth a'r athrawon yn cydweithio i wneud eich ysgol yn lle hapus lle gallwch ddysgu a thyfu'n hyderus.

Mae pawb yn disgwyl i chi wneud eich gorau a mwynhau dysgu, ac rydych chi'n gwneud hynny'n dda.

Mae eich gwersi yn llawn gweithgareddau ymarferol a diddorol, fel gwaith gwyddoniaeth, a choginio. Mae'r gweithgareddau hyn yn eich helpu i ddefnyddio eich medrau mewn ffyrdd creadigol ac ymarferol.

Rydych chi'n defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn fedrus, ac erbyn diwedd eich amser yn yr ysgol, bydd y rhan fwyaf ohonoch yn siarad yn hyderus yn y ddwy iaith. Mae defnyddio technoleg i greu fideos neu recordio eich gwaith yn eich helpu i wella'r ffordd rydych yn siarad.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth defnyddiol i chi er mwyn i chi wybod beth rydych chi'n ei wneud yn dda a sut i wneud eich gwaith hyd yn oed yn well. Maen nhw'n dechrau gwneud yn siŵr bod y ffordd hon o roi adborth yr un peth ym mhob dosbarth a'ch bod yn ymateb trwy wella eich gwaith

Mae eich ymddygiad yn dda – rydych chi'n gwrtais, yn gefnogol i'ch ffrindiau ac yn dangos dyfalbarhad pan fydd pethau'n anodd.

Mae pawb yn yr ysgol yn cael eu parchu ac yn teimlo'n ddiogel. Mae'r pwyllgorau disgyblion yn rhoi cyfle i chi helpu i wella'r ysgol a dysgu sut i arwain.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned leol ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i chi ddysgu trwy brofiadau go iawn, fel sioeau, gweithdai ac ymweliadau.

Mae'r holl waith yma'n eich helpu i dyfu'n hyderus, yn greadigol ac yn barod i adeiladu dyfodol llwyddiannus.

